Ymweld

Bu'r dosbarthiadau Iau yn ymweld â'r Eglwys fel rhan o'u gwaith cwricwlaidd gyda Mrs Non Evans a Mrs Carol Mitchell. Diolch i Mrs Nan Balfour a ddaeth draw i egluro ac esbonio trefn yr Eglwys iddynt.

Bydd blwyddyn 3 a 4 yn ymweld â'r Llyfrgell Genedlaethol hefyd y mis hwn i edrych ar fapiau a lluniau ardal Penrhyn-coch.

Diolch hefyd i Dr A Marshall o IGER am ddod draw i siarad â phlant dosbarth 3 a 4 am amrywiol blanhigion. Mwynhawyd y sgwrs yn fawr.

Croeso

Braf oedd cael croesawu tri o ddisgyblion newydd sef – Angharad Basnett; Ryan Witts a Rhian Wynne i'r dosbarth Derbyn dechrau tymor yr haf. Hei lwc y byddant yn hapus iawn yn ein plith.

Urdd

Daeth Clwb Urdd yr ysgol i ben ar y degfed o Ebrill gyda Mrs Nia Rowlands yn cynnal sesiwn ddrama. Cafodd dros dri deg o blant hwyl a sbri yn ei chwmni. Llawer o ddiolch iddi am ddod atom eto eleni.